



Cynulliad National  
Cenedlaethol Assembly for  
Cymru Wales

## Mesurau Arfaethedig

### Penderfyniad y Llywydd o ran Ffurf Briodol

Mae'r Llywydd wedi penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 23.15, mai dyma fydd y ffurf briodol ar gyfer Mesurau arfaethedig:

#### *Strwythur*

1. Rhaid gosod testun Mesur arfaethedig mewn adrannau a'u rhifo, a dylid ychwanegu atodlenni lle bo hynny'n briodol, a'u rhifo os oes mwy nag un.
2. Gellir rhannu Mesurau Arfaethedig yn Rhannau ac yn Benodau (a thrin atodlenni yn yr un modd hefyd)
3. Dylid rhoi pennawd disgrifiadol byr uwchben pob Rhan, Pennod, adran ac atodlen.
4. Gellir hefyd rannu adrannau'r Mesur arfaethedig (neu baragraffau atodlen) yn grwpiau o dan is-benawdau italig i roi canllaw i strwythur y Mesur arfaethedig (neu'r atodlen).
5. Gellir rhannu'r adrannau'n is-adrannau a pharagraffau a'u dynodi drwy ddefnyddio'r wyddor Saesneg. Mae'n bosibl rhannu paragraffau'n is-baragraffau a'u rhifo drwy ddefnyddio rhifolion rhufeinig.
6. Gellir rhannu atodlenni hefyd yn baragraffau ac is-baragraffau a'u rhifo. Gellir rhannu'r is-baragraffau'n is-is-baragraffau a'u dynodi drwy ddefnyddio'r wyddor Saesneg. Gellir rhannu is-is-baragraffau'n is-is-is-baragraffau a'u rhifo drwy ddefnyddio rhifolion rhufeinig.
7. Rhaid i bob Mesur arfaethedig gynnwys teitl hir a fydd yn dechrau â'r geiriau: "Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru i...". Rhaid i'r teitl hir ymddangos cyn geiriau'r deddfiad.
8. Ni chaniateir rhaglith mewn Mesurau arfaethedig.

9. Rhaid i Fesurau arfaethedig gynnwys darpariaeth i roi teitl byr i'r Mesur hefyd.

*Arddull a chyflwyniad*

10. Rhaid rhoi pennawd i bob adran, a fydd yn cynnwys rhif yr adran, yn union uwchben testun yr adran dan sylw. Dylai'r testun yn yr is-adrannau ac ym mharagraffau'r atodlenni ymddangos fel blociau sydd wedi'u mewnnoli a dylai'r ymyl chwith fod yn syth.
11. Os yw'n briodol rhestru diddymiadau a dirymiadau ar ffurf tabl mewn atodlen, dylai'r tabl gynnwys o leiaf dwy golofn, y golofn gyntaf yn rhoi'r teitl byr a rhif pob statud neu offeryn perthnasol mewn trefn gronolegol; yr ail yn rhestru'r darpariaethau i'w diddymu neu eu dirymu, yn y drefn y maent yn ymddangos yn y statud neu'r offeryn. Gellir ychwanegu rhagor o golofnau fel bo angen.
12. Dylid argraffu testun y Mesurau arfaethedig (y teitl hir, geiriau'r deddfiad, yr adrannau a'r atodlenni) mewn ffont Book Antiqua, maint 11, wedi'i unioni'n llawn.
13. Dylai testun Mesurau arfaethedig ddefnyddio iaith niwtral o ran rhyw.

28 Mehefin 2007